# Cynllunwyr Iaith Cymru

y fforwm proffesiynol
ar gyfer cynllunwyr iaith yng Nghymru

## Pwyso a mesur y Mesur Iaith
## 5 Mawrth 2010
## Mudiad Ysgolion Meithrin, Aberystwyth

Cynhaliwyd cyfarfod o Gynllunwyr Iaith Cymru ar y 5ed o Fawrth yng nghwmni Simon Thomas, Cynghorydd Arbennig Dirprwy Brif Weinidog Llywodraeth y Cynulliad. Daeth criw o gynllunwyr iaith ynghyd i glywed am Fesur arfaethedig y Gymraeg a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y 4ydd o Fawrth. Cafwyd cyfraniadau gan banel yn cynnwys Alun Jones, Menter a Busnes; Gwenan Prysor, Canolfan Dysgu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol, a Steve Eaves, IAITH cyf.

Dyma grynodeb o'r pwyntiau a godwyd yn ystod y bore.

### Cyflwyniad i Fesur arfaethedig y Gymraeg gan Simon Thomas

Dosbarthwyd taflen yn crynhoi cynnwys Mesur arfaethedig y Gymraeg. Pwysleisiodd Simon Thomas (ST) nad dogfen swyddogol oedd hon ond crynodeb o brif bwyntiau'r mesur, er hwylustod, ac nad oedd iddi statws mwy na hynny.

Nododd ST fod y Mesur hwn yn un pwysig gan taw dyma'r mesur cyntaf i ddisodli'r drefn bresennol a rhoi trefn newydd mewn grym. Law yn llaw gyda'r Mesur, mae'r Strategaeth Addysg Gymraeg wedi ei dderbyn gan y Cynulliad a bu ymgynghori yn ddiweddar ar y Strategaeth Iaith Genedlaethol newydd a fydd yn cymryd lle *Iaith Pawb*. Disgwylir cyhoeddi'r Strategaeth Iaith newydd yn yr haf. Nodwyd fod y Strategaeth yn allweddol gan y bydd yn cynnwys elfennau nad sydd yn y Mesur.

Nododd ST bod y Mesur yn cyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un, sef:

- creu Comisiynydd Iaith;
- cadarnhau statws swyddogol i'r Gymraeg;
- sicrhau hawliau yng nghyswllt darparu gwasanaethau.

Aeth ymlaen i esbonio ychydig am rôl y Comisiynydd Iaith:

- Bydd swyddfa'r Comisiynydd Iaith yn disodli Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Bydd yn annibynnol o'r Llywodraeth, hynny yw, nid gwas sifil fydd y Comisiynydd Iaith.
- Bydd y Comisiynydd yn cael ei benodi am dymor o 5 mlynedd gyda'r posibilrwydd o gael ei benodi am ail dymor.
- Bydd y Comisiynydd yn cael ei gynorthwyo gan Banel Cynghori.
- Nid oes sicrwydd eto ynglŷn â lle'r lleolir y cyfrifoldebau dros hyrwyddo'r Gymraeg. Gall yr elfen yma gael ei drosglwyddo i'r Comisiynydd neu'r Llywodraeth neu gellid ystyried opsiwn arall.
- Bydd Safonau Iaith yn disodli Cynlluniau Iaith Gymraeg er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr wybod pa ddarpariaeth sydd ar gael yn ddwyieithog.

- Bydd y Comisiynydd yn ymgynghori ar safonau penodol ac yna'n gofyn i'r Gweinidog osod gorchymyn. Bydd hynny'n golygu y bydd i'r safonau rym statudol.
- Ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r safonau, y Comisiynydd fydd yn gyfrifol am blismona gweithrediad y safonau. Os nad yw corff yn cydymffurfio gyda'r safon, bydd y Comisiynydd yn gallu llunio adroddiad, enwi'r corff a gosod diryw o hyd at £5,000.

Atodlen 8

Yn ogystal â'r cyrff sy'n dod o dan Ddeddf Iaith 1993, mae Atodlen 8 Mesur arfaethedig y Gymraeg yn rhestru cyrff newydd a fydd yn dod dan ddeddfwriaeth iaith am y tro cyntaf, e.e. cwmnïau nwy, trydan, telegyfathrebu a bysys. Does dim rhaid i'r Comisiynydd orfodi'r rhain i ddod yn rhan o'r system safonau yn syth. Rhestrir y cyrff newydd hyn mewn atodlen ar wahân er mwyn sicrhau yn y lle cyntaf bod y cyrff sy'n gorfod cydymffurfio â Deddf Iaith 1993 ar hyn o bryd yn newid i system newydd o safonau iaith. Yn dilyn hyn bydd y Comisiynydd yn ymgynghori gyda'r cyrff newydd.

Hawliau

Y nod yw sefydlu'r hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddidrafferth. Eglurodd ST eu bod yn awyddus i osgoi dilyn trywydd system hawliau anabledd sy'n gosod hawl i unigolion oherwydd pe bai rhywbeth yn mynd o'i le disgwylir i'r unigolyn gwyno a chynnal y baich o fynd â'r achos trwy'r llys ei hunan.

Yn ogystal, dywedodd y byddai rhaid creu eithriadau a disgrifio cyfyngiadau wrth ddeddfu dros yr hawl i siarad Cymraeg a allai arwain at broblemau eraill a sefyllfaoedd cymhleth.

**Y Prif Bwyntiau a godwyd**

Dyma ddetholiad o'r sylwadau a gynigiwyd yn ystod y drafodaeth:

- Heriwyd y datganiad bod y Mesur yn cadarnhau statws yr Iaith Gymraeg.

  Esboniodd ST mai cadarnhau'r statws oedd ymrwymiad Cymru'n Un, nid ehangu ar y statws hwnnw. Cafwyd trafodaeth ar hyd a lled cyrhaeddiad cyfreithiol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn hyn o beth.

- Gofynnwyd sut y byddai'r Mesur yn caniatáu i ddinesydd fyw ei fywyd yn uniaith Gymraeg?

  Esboniwyd nad hynny oedd bwriad y mesur ond y byddai'r Mesur, trwy'r safonau iaith, yn cynyddu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg yn sylweddol. Serch hynny, y Strategaeth Iaith Genedlaethol a'r Strategaeth Addysg fydd yn cyfrannu at allu rhywun i fyw bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg, er nid trwy'r Gymraeg yn unig.

  Bydd y Mesur yn ehangu ar y gwasanaethau sydd ar gael yn ddwyieithog, er enghraifft, trwy gynnwys y cyrff ychwanegol a restrir yn Atodlen 8. O ganlyniad, bydd defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg yn gweld cynnydd mewn gwasanaethau sydd ar gael ac sy'n cael eu cyflwyno iddyn nhw trwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod edrych amdanyn nhw. Y nod yw codi disgwyliadau a chodi lefel gwasanaeth. Bydd y safonau iaith yn gymwys i Gomisiwn y Cynulliad yn ogystal.

- Gofynnwyd sut y byddai'r Comisiynydd Iaith yn cymharu gyda'r Comisiynwyr eraill.

  Eglurwyd mai eiriolwyr yn unig oedd y Comisiynwyr eraill. Byddai'r Comisiynydd Iaith yn gyfrifol am system statudol, delio gyda chwynion a chosbi yn ogystal â chynnal yr elfen eiriolaeth. Byddai'r swydd yn gyfuniad o Gomisiynydd ac Ombwdsman.

**Y Trydydd Sector**

- Pwysleisiodd Gwenan Prysor taw un rhan yn unig yw deddfwriaeth ond mae'n cynnal pethau eraill ac yn cynnig lle i bethau eraill dyfu. Ni fydd y mesur na deddfwriaeth yn ateb problemau ond bydd modd gosod safon ar gyfer hwyluso a gweithredu dwyieithrwydd, e.e. hyfforddi mewnol.

- Tynnodd ST sylw at ddau gymal yn y mesur sy'n son am godau ymarfer. Yn wahanol i'r safonau, ni fydd y codau ymarfer yn statudol ond byddant yn cael eu defnyddio er mwyn darparu canllawiau ymarferol ac i lenwi bylchau. Mae'n cynnig ffordd o ddelio gyda'r trydydd sector yn ogystal.

- Nodwyd y bydd cyrff trydydd sector sy'n derbyn dros £400,000 o arian cyhoeddus yn gorfod cydymffurfio â safon iaith. Bydd modd addasu'r safonau ar gyfer cyrff trydydd sector sydd ar hyn o bryd yn llunio cynlluniau iaith Gymraeg o'u gwirfodd.

**Y Sector Breifat**

- Awgrymodd Alun Jones bod angen i'r sector gyhoeddus arwain o ran bod yn esiampl a chynnig anogaeth i'r sector breifat. Nododd hefyd bod angen sicrhau bod y geiniog yn troi o fewn Cymru, law yn llaw â gwella darpariaeth ddwyieithog.

- Wrth son am yr angen i blismona amodau grant, cyfeiriwyd at *Bluestone*, Sir Benfro, sydd wedi derbyn llawer o arian cyhoeddus ond sydd â'i holl arwyddion a'i ddeunydd marchnata yn uniaith Saesneg.

- Mynegwyd y farn hefyd mai anogaeth a chefnogaeth yn hytrach na gorfodaeth sydd ei angen ar y sector breifat.

**Y Sector Gyhoeddus**

- Nododd Steve Eaves y bydd y cyfnod nesaf yn gwahodd creadigrwydd a dychymyg fel y digwyddodd yn sgil Deddfau Iaith 1967 a 1993. Gwelodd Fwrdd yr Iaith Gymraeg gyfleoedd i fod yn greadigol, e.e. trwy hyrwyddo'r Gymraeg mewn gweithleoedd.

- Mynegwyd y farn bod angen pwyllo a meddwl sut mae'r safonau iaith yn mynd i arfogi neu ddiarfogi swyddogion iaith cyrff cyhoeddus. Er holl ffaeleddau cynlluniau iaith Gymraeg maent wedi cyffwrdd ag arferion miloedd ar filoedd o bobl sy'n gweithio ar hyd a lled y wlad a'u tynnu i mewn i ddisgwrs iaith yn ddiarwybod iddyn nhw. Pwysleisiwyd bod y broses o lunio a chyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg i'w gweithredu yn holl bwysig – mor bwysig â'r ddogfen ei hun.

- Mynegwyd y farn nad yw prif-ffrydio i feysydd eraill wedi digwydd o ddifrif. Nid yw deddfau nad sy'n ymwneud ag iaith yn uniongyrchol bob amser yn gydlynus â nod *Iaith Pawb.*

- Croesawyd bwriad y Llywodraeth i fod yn rhagweithiol. Ar ôl 400 mlynedd o eithrio'r Gymraeg o'r pau cyhoeddus nid yw pobl Cymru yn mynd i heidio i chwilio am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg nac i gwyno yn eu cylch. Rhaid annog a hwyluso defnydd.

**I gloi**

- Wrth ymateb, fe wnaeth ST gydnabod bod y broses o lunio Cynlluniau Iaith Gymraeg wedi bod yn werthfawr i nifer fawr o gyrff a bod disodli Cynlluniau Iaith yn golygu disodli'r broses honno. Serch hynny, o dan y drefn newydd, bydd dal angen i gyrff lunio cynllun gweithredu ar gyfer cydymffurfio â'r safon iaith.

- Cydnabuwyd bod prif-ffrydio'r Gymraeg ar goll yn y Cynulliad ar hyn o bryd. Mae'r Gymraeg yn cael ei chynnwys mewn paragraff mewn strategaethau ond ddim ym mhrif-ffrwd gweithredu.

- Nodwyd bod yna ddisgwyliad ar Awdurdodau Lleol i lunio Cynlluniau Addysg Gymraeg eu hunain ers Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cadarnhawyd y byddai'r cyfrifoldeb hwn yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad a'i brif-ffrydio i'r Adran Addysg (APADGOS).

- Ategwyd, o safbwynt cynllunio ieithyddol, y byddai gan y Comisiynydd yr hawl i lunio polisi cenedlaethol o safbwynt yr iaith Gymraeg. Nodwyd bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi llwyddo i wneud gwaith da mewn meysydd penodol ond fod yna farn nad yw, o bosibl, wedi cyflawni gorolwg strategol cenedlaethol i'r graddau y gellid fod wedi disgwyl.

- Nodwyd bod darlledu wedi ei eithrio o'r mesur gan ei fod wedi ei eithrio o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Serch hynny, nodwyd nad yw hyn yn effeithio ar wasanaethau telegyfathrebu a gwasanaethau ar-lein, e.e. Awdurdodau Lleol a'r Cynulliad.

- Nododd ST fod croeso calonnog i bawb ymateb i'r Mesur trwy'r amrywiol drefniadau fydd yn cael eu cydlynu dros y misoedd diwethaf.

* * *